**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

~~Eich cyf/Your ref~~
Ein cyf/Our ref

David Rees AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

13 Gorffennaf 2015

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf yn dilyn tystiolaeth a gafwyd ynglŷn â'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 11 Mehefin.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ganolog i lwyddiant Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac rwy'n croesawu'r craffu ychwanegol y mae'r Pwyllgor wedi'i roi cyn y cyfarfod llawn ar 14 Gorffennaf. Rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y dylai'r Rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo.

Rwy'n hyderus y bydd nifer sylweddol o'r materion a godwyd yn y llythyr eisoes wedi cael eu trin drwy ddiwygiadau i'r codau ymarfer. Er enghraifft, o ran y sylwadau o dan y penawdau Adnoddau Cymunedol a'r Prawf 'Gallu a'r unig ffordd y gall', rwy o'r farn bod y rhain yn cael eu hymdrin â nhw yn y Cod Ymarfer ar Asesu o dan Rhan 3. Mae'r cod yn cynnwys manylion pellach am y Dull Cenedlaethol ar Asesu a Chymhwystra, sy'n ei wneud yn ofynnol i gamau i'w gweithredu gan yr awdurdod lleol neu bobl eraill gael eu cofnodi, er mwyn helpu'r unigolyn i gyflawni'r canlyniadau hynny. Yn ychwanegol, bydd datganiad ar sut mae'r ymarferydd yn asesu'r cam gweithredu a nodwyd yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniad. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i'r anghenion hynny y disgwylir i'r ddarpariaeth o ofal a chymorth ei bodloni, ond hefyd i'r anghenion hynny sy'n cael eu diwallu drwy wasanaethau yn y gymuned neu drwy ddulliau ataliol, drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth, neu drwy ddulliau eraill.

Yn yr un modd, mae'r sylwadau ar yr effaith ar ofalwyr hefyd yn cael eu trin yn y cod ymarfer ar Asesu, ac mae'r cyfeiriadau at Eiriolaeth yn cael eu cynnwys yn y cod ymarfer ar ran 10, sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad.

Mewn perthynas â'r cyfeiriadau ynglŷn ag adolygu penderfyniadau, rwy eisoes wedi sôn y byddaf yn ceisio cryfhau'r cod ymarfer i egluro'r broses o gynnal ailasesiad, a byddaf yn ystyried sylwadau'r Pwyllgor yn ystod y broses honno. Fel y gwyddoch hefyd, mae cyfeiriadau at roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Anableddau wedi'u cynnwys o dan Rhan 2 a 3 o'r Ddeddf, a byddaf yn ystyried cyfeirio ato o dan Rhan 4.

Gallaf eich sicrhau y byddaf yn gwneud yn siŵr bod sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried a'r codau'n cael eu mireinio i egluro'r hyn sydd eu hangen cyn iddynt gael eu cwblhau yn yr hydref. Rwy hefyd yn cefnogi argymhelliad y Pwyllgor fod y pwyllgor olynol yn adolygu gweithredu'r rheoliadau ar adeg briodol ochr yn ochr â'r gwaith monitro a gwerthuso sy'n cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

CC David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol